

“Wele fi’n anfon fy nghennad o’th flaen,
i baratoi’r ffordd ar dy gyfer”



Cymun Bendigaid ar Gân

Trydydd Sul yr Adfent

12 Rhagfyr 2021 am 9.15am




Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Tymor yr Adfent yng Nghadeirlan Deiniol Sant ym Mangor



“Duw gyda ni” (Mathew 1:23)

Yn ystod yr Adfent, pan
fydd y dyddiau’n fyr,
rydyn ni’n paratoi’r ffordd,
yn disgwylgar, ar gyfer
Iesu Grist, a ddaeth yn ein
plith yn ein cnawd dynol
ym Methlehem, a fydd
yn dod atom ni eto yn
menllanw pob peth, ac y
daw ei Ysbryd cariadus i
gofleidio pob un ohonom
heddiw.

Cymun

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd
â’r Crist bythol atgyfodedig mewn
bara a gwin, ei Gorff a’i Waed ef yn
ein plith.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn yn
paratoi ein hunain i gwrdd â Christ
trwy gyffesu ein pechodau – y
ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw yn
ein bywydau yr wythnos ddiwethaf
hon – ac yn derbyn gollyngdod, sef
sicrwydd o faddeuant Duw.

2 Yna rydyn ni’n gwrandao ar
ddarlenniadau o’r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i’n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri’r
bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llur nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Rhagofalon Cofid

Mae'n ofyniad cyfreithiol gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r gofyniad yn gymwys i bawb 11 oed a throsodd onibai bod gennych reswm.

Rydyn ni wrth ein bodd bod pawb bellach yn cael canu, ond gofynnir i bawb heblaw'r Côr ganu y tu ôl i'w gorchudd wyneb.

Fe'ch gwahoddir i ddarparu manylion Profi Olrhain Amddiffyn. Ceir codau QR ger y drysau.

Byddwch yn ystyriol a pharchus tuag at eraill, gan gadw pellter priodol. Mae'r seddi yn yr eiliau yn cynnig mwy o le i ymbellhau.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd


Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Eryn



Clywaf atsain cân y bore,
cerdda dros y ddaear ddu;
daw wawr y nefol olau

Crist yn dyfod oddi fry;
aed breuddwydion,
cwsgr, a syrthni oll o'n bron.



Seren newydd a ddisgleiria;
tarfa bob afiachus wŷn;
oen tragwyddol a ddynesa
i ddwyn traul dyledion dyn;
ceisiwn ninnau
bawb mewn dagrau ran o'i ras.

Fel pan ddelo yn y diwedd
i amgylchu'r byd â braw,
na ddisgynno ei ddigllonedd
arnom ni sy dan ei law;
bod gogoniant
byth i'r Drindod ddiwahân.

Geiriau

Emyn Ladin o'r bumed ganrif

Cyfieithiad

Ab Ithel (John Williams, 1811-1862)

Cerddoriaeth | "Mannheim"

Friedrich Filitz (1804-1876)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen, i baratoi'r ffordd ar dy gyfer."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau

ger bron disgleirdeb Duw,
sy'n llewyrch yn ein tywyllwch,
sy'n hidlo lludw'n dyheu,
sy'n ailgynnau ynom gyfiawnder a chariad.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.
*Arglwydd, trugarha. Crist, trugarha.
Arglwydd, trugarha.*

Cerddoriaeth

Messe Basse, Gabriel Fauré (1845-1924)

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

O Waredwr Iesu Grist, a anfonaist dy genhadwr ar dy ddyfodiad cyntaf i baratoi dy ffordd o'th flaen: caniatâ i weinidogion a goruchwylwyr dy ddirgeleddau yn yr un modd baratoi ac arloesi dy ffordd, trwy droi calonnau'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn, fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd, y ceir ni'n bobl gymeradwy yn dy olwg di; sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

Amen.

Eisteddwn

Salmyddiaeth



R Ar d' orsedd gadarn plant ein plant
eisteddant yn dragywydd.

Bydded dy offeiriad wedi eu gwisgo â chyfiawnder, a bydded i'th ffyddloniaid orfoleddu.”

Er mwyn Dafydd dy was, paid â throi oddi wrth wyneb dy eneinioq.

R Ar d' orsedd gadarn plant ein plant
eisteddant yn dragywydd.

Tyngaist i Ddafydd adduned sicr na thry oddi wrthi:

"O ffrwyth dy gorff y gosodaf un ar dy orsedd.

Os ceidw dy feibion fy nghyfamod, a'r tystiolaethau a ddysgaf iddynt, bydd eu meibion hwythau hyd byth yn eistedd ar dy orsedd."

R Ar d' orsedd gadarn plant ein plant
eisteddant yn dragywydd.

Oherwydd dewisodd Dduw Seion, a'i chwennych yn drigfan:

"Dyma fy ngorffwysfa am byth; yma y trigaf am imi ei dewis.

Gwisgaf ei hofffeiriaid ag iachawdwriaeth, a bydd ei ffyddloniaid yn gorfoleddu."

R Ar d' orsedd gadarn plant ein plant eisteddant yn dragywydd.

Salm 132:8-17

Cerddoriaeth

Joe Cooper a Simon Ogdon

Darllenriad

Darllenriad o lyfr Malachi.

Dyma a ddywed eich Sanct: Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Sanctaidd Un hir-ddisgwyliedig i mewn i'r deml; y mae cennad y cyfamod, sydd wrth eich bodd, yn dyfod, medd Duw y Lluoedd. Pwy a all ddal dydd fy nyfodiad, a phwy a saif pan ymddangosaf? Yr wyf fel tân coethydd ac fel sebon golchydd. Eisteddaf i lawr fel un yn coethi a phuro arian, a phuraf ddisgynyddion Lefi a'u coethi fel aur ac arian, er mwyn iddynt fod yn addas i ddwyn offrymau i'r Sanctaidd Un. Yna bydd offrwm Jwda a Jerwsalem yn hyfrydwch i'r Sanctaidd Un, fel yn y dyddiau gynt a'r blynyddoedd a fu. Yna nesâf atoch i farn, yn dyst parod yn erbyn dewiniaid a godinebwyr; yn erbyn y rhai sy'n tyngu'n gelwyddog; yn erbyn y rhai sy'n gorthrymu'r gwas cyflog, y weddw a'r amddifad; yn erbyn y rhai sy'n gwthio'r estron o'r neilltu, ac nad ydynt yn fy ofni i, medd Duw y Lluoedd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Malachi 3:1-5

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu'r Diacon yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



Y Halelwia.

R Halelwia.

Beth yr aethoch allan i'w weld? Ai proffwyd? Ie, meddaf wrthych, a mwy na phroffwyd.

R Halelwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Pan glywodd loan yn y carchar am weithredoedd Crist, anfonodd trwy ei ddisgyblion a gofyn iddo, "Ai ti yw'r hwn sydd i ddod, ai am rywun arall yr ydym i ddisgwyl?" Ac atebodd Iesu hwy, "Ewch a dywedwch wrth loan yr hyn yr ydych yn ei glywed ac yn ei weld. Y mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a'r byddariaid yn clywed, y meirw yn codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da. Gwyn ei fyd y sawl na fydd yn cwmpo o'm hachos i." Wrth i ddisgyblion loan fynd ymaith, dechreuodd Iesu sôn am loan wrth y tyrfaeodd. "Beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych arno? Ai brwynen yn siglo yn y gwynt? Beth yr aethoch allan i'w weld? Ai un wedi ei wisgo mewn dillad esmwyth? Yn nhai brenhinoedd y mae'r rhai sy'n gwisgo dillad esmwyth. Beth yr aethoch allan i'w weld? Ai proffwyd? Ie, meddaf wrthyh, a mwy na phroffwyd. Dyma'r un y mae'n ysgrifenedig amdano: 'Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen, i baratoi'r ffordd ar dy gyfer.'"

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

Moliant i ti, O Grist.

Mathew 11:2-10

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth

Yr Is-Ddeon

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Y O Dduw, yn dy drugaredd,

R **Gwrando ein gweddi.**

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

Y ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R **A chyfodi mewn gogoniant.**

Y Dad trugarog,

R **Derbyn y gweddiâu hyn**

er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.

Amen.

Codwn ar ein traed



Cyn it ddyfod gynt i drigo
gyda dynion, Arglwydd glân,
ti ddanfonaist dy genhadwr
i bar'toi dy fordd o'th faen;
dyro heddiw
i'th genhadon gyfryw ras.

Caniatâ i'th weinidogion,
goruchwylwyr da dy dŷ,
lwyr arloesi ffordd it eto
i galonnau myrdd di-ri';
trwy droi'r cyndyn
i ddoethineb bur dy saint.

Yna ar dy ail-ddyfodiad
i iawn farnu dynol-ryw,
caffer ninnau'n gymeradwy
yn dy olwg di, ein Duw,
tryw ryglyddon
dy ddioddefaint ar y Groes.

Geiriau
Casgliad Daniel Rees (1831)
Cerddoriaeth | "Rhuddlan"
Alaw Gymreig

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddï Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A ddaeth i'n plith yng nghyflawniad yr amser gan agor inni ffordd iachawdwriaeth. Gwyliwn yn awr am y dydd pan ddaw drachefn i farnu'r byd, gan ddatguddio goleuni ei bresenoldeb, fel y gwelwn ei allu a'i ogoniant.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctus, sanctus, sanctus, Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt coeli et terra Gloria tua. Hosanna in excelsis.

Cyfieithiad

*Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th
ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.*

Cerddoriaeth

Messe Basse, Gabriel Fauré (1845-1924)

✠ Benedictus qui venit in nomine domini. Hosanna in excelsis.

Cyfieithiad

✠ *Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r
Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.*

Cerddoriaeth

Plaeangaen

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostyt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. **Amen.**

Tangnefedd

Hyn yw trugaredd dy galon, O Dduw – daw'r wawrddydd oddi uchod i'n plith i ddatguddio ein hundeb ynot ti; dy gorff torredig yn gyflawn pan ymddangosi.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, dona nobis pacem.

Translation

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Messe Basse, Gabriel Fauré (1845-1924)

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd. Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno o'r Aafrlladen Sagrafennol yn unig ar hyn o bryd

Motét

Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad? A phwy a saif pan ymddangoso efe? Canys y mae efe fel tân y toddydd.

Geiriau

Malachi 3

Cerddoriaeth

George Frideric Handel (1685-1759)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn



Clywch yr eglur lais yn galw,
“Crist,” medd ef, “gerllaw y sydd”;
holl freuddwydion y tywyllwch
bwriwch ymaith, blant y dydd.

Gyda’r rhybudd doed yr enaid
fry o faglau daear lawr,
Crist, ei haul, gan wasgar syrthni,
sy’n tywynnu gyda’r wawr.

Wele’r On a hir ddisgwylwyd,
gyda phardwn daw or nef,
awn ar frys gan wylo dagrau
am faddeuant ato ef.

Eto, gyda grym pan ddelo,
nes bod daear lawr mewn braw,
deued fel in hamddiffynnwr
ar gymylau’r wybren draw.

Geiriau

Emyn Ladin o’r chwechwed ganrif gynnar

Cyfieithiad

T. Gwynn Jones (1871-1949)

Cerddoriaeth | “Merton”

William H. Monk (1823-1889)

Parhawn ar ein traed

Gweddi ôl-Gymun

Gweddiwn.

Nefol Dad, sy'n llawenhau â'r coffâd blynyddol am enedigaeth dy unig Fab, Iesu Grist: caniatâ i ni, sy'n paratoi i'w dderbyn yn waredwr, edrych arno'n llawn hyder pan ddaw yn farnwr arnom; trwy'r un Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.



Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder, arnoch
a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen;
a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael
Mae croeso cynnes i chi aros am baned yng nghefn Corff yr Eglwys

Offrymddarn ar yr organ

Byrfyfyrrio corawl ar "Wachef auf", Sigfrid Karg-Elert (1877-1933)

Hysbys wythnosol

Gweddïo dros ein Harchesgob newydd

Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau at ein Hesgob ar ei ethol yn Archesgob Cymru. Bu i'r Esgob ei ethol yn Archesgob gan aelodau Coleg Ethol yr Eglwys yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf cyfarfod y Coleg yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandrindod ddydd Llun. Cadarnhawyd ei etholiad yn Archesgob Cymru ar unwaith gan y pum esgob cadeiriol arall. Gorseddir yr Archesgob yn ein Cadeirlan yn y flwyddyn newydd. Fel Archesgob, bydd yn parhau i wasanaethu fel Esgob Bangor.

Da o beth oedd inni allu cynnull yn y Gadeirlan nos Fawrth i ddatlu Cymun Bendigaid ar Gân yn ddiofryd i'r Ysbryd Glân, i weddïo dros yr Archesgob newydd ar ei etholiad, ac dros Esgobion yr Eglwys yng Nghymru.

Dyma'r ymbiliau a ddefnyddiwyd gan y Canon dros Fywyd Cynulleidfaoel yn ystod y Cymun. Gallwn barhau i'w defnyddio wrth inni gynnal yr Archesgob newydd yn ein gweddïau beunyddiol.

Mawr wyt ti O Dduw, ac yn mawr yw ein mawl iti. Yr wyt yn tollti arnom fendithion lu y tu hwnt i'n deall. Gweddïwn heno am dy fendith ar Andrew John, dy gwas, ein Hesgob ac Archesgob newydd Cymru.

Diolchwn iti am y weinidogaeth a dderbynasom oddi wrth Esgob

Andrew dros y blynyddoedd; am ei angerdd dros efengyl; a'i esiampl o wasanaeth a chariad sy'n ein hannog a'n hysbrydoli. Bydded i'th Ysbryd Glân yn raslon o'i gylch gan ymdywallt arno roddion doethineb a nerth, addfwynder a thosturi.

Arweiniodd dy Fab, Iesu Grist, ei ddisgyblion gyda gofal a dealltwriaeth, gan ddatgelu ynddynt y doniau a roddast ti iddynt. Boed i Archesgob Andrew adlewyrchu arweinyddiaeth Crist, wrth iddo weithio gyda'r Eglwys gyfan i gyhoeddi dy Efengyl mewn gair a gweithred.

Gweddïwn dros deulu'r Archesgob a'i ffrindiau agos. Boed iddo ganfod wastad gyda hwy yr hedd a'r cariad, y llonyddwch a thawelwch, i'w gryfhau i gyflawni'r weinidogaeth newydd hon.

Yn olaf, gweddïwn dros Fainc yr Esgobion, am ddechreuadau newydd wrth iddynt geisio clywed dy air o'r newydd. Boed iddynt weithio gyda'i gilydd i gyhoeddi dy ogoniant a'th ddaioni, fel y gall yr holl fyd ganfod dy iachâd a'r gyflawnrwydd.

Rhagofalon Cofid

Ysgrifenna'r Is-Ddeon:

Mae'r rhain yn ddyddiau pryderus wrth i ni fonitro datblygiadau diwedderaf Cofid.

Hyderaf nad oes angen imi ein hannog ni oll i gymryd rhan yn yr ymdrechion brechu ac atgyfnerthu cyfredol. Mae ymateb yn brydlon i'r cyfleoedd i gael ein brechu a derbyn y pigiad atgyfnerthu yn rhywbeth pendant y gallwn ni i gyd ei wneud i chwarae ein rhan i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel.

Mae ein pedwar prif rhagofal Cofid yn y Gadeirlan, sydd wedi’u hargraffu ar drydedd dudalen y llyfryn hwn, yn parhau i fod mewn grym, a dyma hoelion wyth yr hyn a wnawn ni wrth ymgynnull fel cymuned y Gymuned i leihau’r risg o drosglwyddiant. Dylem hefyd dalu sylw i awgrym Llywodraeth Cymru ein bod yn gwneud llawer mwy o ddefnydd personol o brofion llif-ochrol cyn gadael cartref, yn enwedig pan am fynychu gweithgareddau cymunedol.

Wrth i Lywodraeth Cymru a chyrrff cenedlaethol yr Eglwys yng Nghymru barhau i adolygu eu rheoliadau a’u canllawiau, felly y byddwn ninnau hefyd yn adolygu ein rhagofalon yn rheolaidd yn y Gadeirlan.

Ydy, mae’r rhain yn ddyddiau pryderus. Ond mae’r rhain hefyd yn ddyddiau sanctaidd, wrth i ni baratoi, mewn calon a meddwl, i ddathlu dyfodiad Crist, sef Goleuni’r Byd, Gobaith y Cenhedloedd, a’r Wawrddydd oddi fry, a fydd yn gwawrio arnom ni waeth pa mor hir neu bryderus y nos.

Rwy’n falch ei bod yn ymddangos yn debygol, ar hyn o bryd, y byddwn yn gallu ymgynnull yn y Gadeirlan dros yr wythnosau i gadw Adfent wyliadwrus ac i ddathlu’r Ŵyl yn llawen. Gadewch imi eich hannog i gyfranogi yn yr arlwy gyfoethog i’r graddau y medrwch; i gadw gweinidogaeth y Gadeirlan yn eich gweddïau ble bynnag yr ydych dros yr wythnosau a ddaw; ac i ofalu amdanoch eich hunain ac am eich gilydd. *“Dyma gyfaill haedda ‘i garu, a’i glodfori’n fwy nag un... Frodyr, dewch, llawenhewch, diolchwch iddo, byth na thewch!”*

Dathliadau’r Adfent a’r Nadolig

Mae tudalennau 40-43 o Buchedd Bangor yn amlinellu’r dathliadau

cyfoethog a chywrair sy’n cymryd lle yn y Gadeirlan dros yr Adfent a’r Nadolig, y tu hwnt i’n defodau rheolaidd a’n Cymun Nadolig. Mae’r rhain yn cynnwys: **perfformiad dwyieithog o’r Meseia gan y Côr ar 14 Rhagfyr; Defod Gobaith: Llithoedd a Charolau’r Nadolig yng Ngolau Cannwyll ar 19 Rhagfyr; a Phlygain y Nadolig ar 23 Rhagfyr.** Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi’r dyddiadau hyn a’r dathliadau eraill yn eich dyddiaduron, ac yn rhannu’r newydd.

Yn ein gweddïau

Teulu’r esgobaeth Archesgob Cymru

Yn glâf Felix; Alun Hawkins, offeiriad; Lis Perkins; Glenys Dore; Judith Helen; Caitriona Carroll; Sacha Cook

A fu farw’n ddiweddar Allan Partington; Carl Clowes; Jacqueline Parry

Gŵyl goffa —

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy’n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda’r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am “Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth” a dewis “Bro Deinïol” o dan “Buddiolwr”.

3 Mae basged i gasglu rhoddion yng nghefn Corff yr Eglwys fore heddiw.



O'n blaenau

Meseia

George Frideric Handel
Dydd Mawrth 14 Rhagfyr
7.30pm

Ymunwch â Chôr y Gadeirlan am berfformiad o Ran I a "hoff ddarnau" o oratorio enwocaf Handel, mewn fersiwn ddwyieithog newydd a chyffrous. Bydd y perfformiad yn cynnwys unawdau gan Ysgolheigion y Gân newydd y Gadeirlan, a chyfeiliant cerddorfaol gan fyfyrwyr Prifysgol Bangor a cherddorion lleol eraill. Mae tocynnau (£10 oedolion / £5 consesiynau / plant yn rhad ac am ddim) ar gael ar y drws neu ymlaen llaw drwy sganio'r cod QR.

Defod Gobaith

Llithoedd a Charolau'r Nadolig
yng Ngolau Cannwyll
Dydd Sul 19 Rhagfyr
5.30pm

Yr ail o'n tair defod draddodiadol, dirdynol a cherddorol ar nos Sul yn ystod cyfnod y Nadolig. Ar ôl cynifer o fisoedd heriol, rydym yn ymgynnull o bob rhan o'r ddinas a'r gymuned i glywed geiriau o addewid ac i ganu carolau llawenydd. Ar ôl cynifer o fisoedd heriol, rydym yn ymgynnull o bob rhan o'r ddinas a'r gymuned i glywed geiriau o addewid mewn Naw Llith, ac i ganu carolau llawenydd. Mae'r ddefod yn rhad ac am ddim i fynychu, gyda rhoddion yn cael eu gwahodd tuag at ein Apêl Nadolig.



Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Y Parchediacaf Andrew T. G. John
esgob.bangor@eglwysyngnghymru.org.uk

Is-Ddeon

Canon Siôn B. E. Rhys Evans
sionrhysyevans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Canon Tracy Jones
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd

Joe Cooper
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd

Martin Brown
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu

Naomi Wood
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Darllynydd ac Ystylydd

Elma Taylor

Clerc y Cabidwl

Robert Jones
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws

Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Y Parchg Ddr John Prysor-Jones, y Tra Pharchg
Athro Gordon McPhate, y Parchg Peter Kaye

Pensaer y Gadeirlan

Simon Malam

Rhif elusen 1158340

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur bioddriaddadwy, teneuach na'r arfer, wedi'i wneud o goedwigoedd adnewyddadwy wedi'u plannu, sy'n storio carbon.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaidd 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible ac Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Ar y clawr ceir darlun gan Andrea del Sarto (1486-1530) yn Amgueddfa'r Met.